

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN HWN YNG NGWYNEDD

- Diffyg darpariaeth lle ar gyfer gerddi gyda thai newydd.
- Colli lle ar gyfer gerddi ffrynt drwy osod wyneb caled (e.e. ar gyfer parcio a rhag torri gwellt) a gosod tirlunio caled ar erddi cefn mawr (e.e. decio) neu ddatblygu tai.
- Defnydd o gemegolion gardd a phelenni gw lithennod
- Llai o dyfu ffrwythau a llysiau a mwy o brysglwyni anffrodorol addurniadol a'r ysfa i fod yn daclus (diffyg corneli gwyllt, lawntydd wedi'u torri'n rheolaidd, gwaredu coed marw, llai o domenni compost).
- Cyflwyno planhigion anffrodorol, yn enwedig mewn pyllau gardd e.e. dail ceiniog arnofiol *Hydrocotyle ranunculoides* a chorchwyn Seland Newydd *Crassula helmsii* sydd wedi dianc a meddiannu llawer o byllau, llynnoedd ac afonydd mewn trefi ac yng nghefn gwlad, ac mae'r ddau yn bygwth cynefinoedd a rhywogaethau lleol erbyn hyn.
- Defnyddio mawn wedi'i dorri o gynefinoedd tir gwlyb - mae compost heb fawn yn well dewis.
- Cathod yn lladd adar a rhywogaethau eraill.

3. CGR / CCG PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Dolydd a phorfeydd yr iseldir, Coridorau afonydd, Gwlyptiroedd yr iseldir, Planhigion ymledol.

Ystlum bedol leiaf, Tylluan wen, Gwiber, Pryf lladd, Capiâu cwyr

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Does gan gerddi ddim gwarchodaeth gyfreithiol er bod coed yn cael eu gwarchod mewn ardaloedd cadwraeth a thrwy Orchmynon Cadw Coed.
- Gall rhywogaethau unigol (gan gynnwys ystlumod a moch ddaear) gael eu gwarchod o dan wahanol ddeddfwriaethau (gweler adran 1.1).
- Mae canllawiau Cyngor Gwynedd ar gyfer datblygiadau Tai Cymdeithasol yn annog gerddi o 40m² o faint ar gyfer tai a 30m² ar gyfer byngalos.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Mae Partneriaeth Garddio Bywyd Gwyllt Eryri (sy'n cynnwys awdurdodau lleol, cyrff statudol, sefydliadau academaidd, aelodau o'r proffesiwn garddwriaeth, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol) yn hyrwyddo garddio bywyd gwyllt yng ngogledd orllewin Cymru. Mae gan y Bartneriaeth swyddog llawn amser sy'n rhoi cyngor ymarferol ar arddio bywyd gwyllt mewn gerddi preifat yn ogystal ag ar diroedd cymunedol, ysgolion a busnesau. Drwy ddsbarthu taflenni'r Bartneriaeth a chynnal 'Cystadleuaeth Garddio Bywyd Gwyllt' blynyddol, codir ymwybyddiaeth o bwysigrwydd garddio ar gyfer bywyd gwyllt.
- Mae llawer o erddi preifat a rhandiroedd yn cael eu rheoli gan dalu sylw i gadwraeth e.e. wrth godi bocsys adar / ystlumod, plannu coed a phrysglwyni brodorol, compostio a rheoli manau megis dolydd.
- Mae cynllun Ysgolion Gwyrdd Cyngor Gwynedd yn cynorthwyo ysgolion i fabwysiadu polisïau a gweithgareddau sy'n amgylcheddol gyfeillgar ac sy'n cynnwys rheoli tiroedd ysgol er budd bywyd gwyllt. Mae gan y cynllun 3 lefel: Gwobr efydd, arian ac aur, pob un gyda gofynion

penodol ar gyfer eu hennill e.e. mae'r wobwr arian yn gofyn am ddyluniad o ardd bywyd gwyllt tra bo'r aur yn gofyn am ddatblygu'r dyluniad gardd bywyd gwyllt hwnnw.

- Mae Eco-Ysgolion Cymru (sy'n cael eu cefnogi gan amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys Ymwybyddiaeth Gwastraff Cymru, Y Sefydliad dros Addysg Amgylcheddol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn raglen sy'n helpu ysgolion i fabwysiadu ymarferion mwy cynaliadwy. Fel rhaglen cynllun gwobrwyo, mae gofynion Ysgolion Eco'n cynnwys dylunio, datblygu a rheoli tiroedd ysgolion mewn ffordd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.
- Mae Gwarchodwyr Cefn Gwlad (BTCV) yn cynnig cymorth ymarferol a chynghor gyda phrosiectau cymunedol (gan gynnwys gerddi cymunedol ac mewn ysgolion) gyda golwg ar gadwraeth bob amser.
- Mae Cyngor Gwynedd yn darparu biniau compost yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd.
- Mae ymgyrch 'Plannu ar gyfer Bywyd Gwyllt' Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n annog pobl i "fynd allan i'w gerddi - a phlannu ar gyfer bywyd gwyllt". Mae'n anelu at helpu pobl i gael mwy o bleser o'u gerddi drwy ddod â bywyd gwyllt i mewn iddynt.
- Mae gan y RSPB lyfryn 32 tudalen "The birds in your garden" sy'n rhoi awgrymiadau a chynghor ar sut i ddenu adar i erddi.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a'r Gymdeithas Garddwriaeth Frenhinol wefan (www.wildaboutgardening.org) sy'n rhoi cynghor ar arddio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Mae cynlluniau Ysgolion Gwyrdd ac Eco-Ysgolion yn annog plant i gofnodi a monitro bywyd gwyllt ar dir / gardd eu hysgol.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a gwerth gerddi ar gyfer bioamrywiaeth
2. I wella ansawdd gerddi, rhandiroedd a thiroedd ysgol / cymunedol ar gyfer bywyd gwyllt
3. I wella gwybodaeth am y bywyd gwyllt sy'n defnyddio neu'n byw mewn gerddi
4. I godi ymwybyddiaeth o'r effeithiau ehangach y gall ymarferion garddio eu cael ar bioamrywiaeth

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ⁷
Polisi a deddfwriaeth		
1	Trwy'r ddeddfwriaeth berthnasol, sicrhau fod coed mewn ardaloedd cadwraeth a / neu'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn Gorchymyn Cadw Coed yn cael eu gwarchod rhag datblygiadau TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG
2	Trwy'r broses cynllunio, anelu at warchod rhandiroedd a thiroedd ysgol neu gymunedol rhag eu datblygu TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
3	Darparu cymorth ymarferol a / neu ymgynghorol i ysgolion ar gyfer dylunio a / neu adfer gerddi cyfeillgar i fywyd gwyllt ar eu tiroedd TARGED/AMSERLEN: 3 prosiect ysgol i'w gyflawni, Erbyn 2008	CG, PGBGE, CCGC, BTCV, YNGC
4	Darparu cymorth ymarferol a / neu ymgynghorol i grwpiau cymunedol gyda dylunio a / neu adfer gerddi bywyd gwyllt cyfeillgar TARGED/AMSERLEN: 3 prosiect ysgol i'w gyflawni, Erbyn 2008	PGBGE

Cynghori		
5	Casglu a darparu'r cyngor a'r ymarfer gorau ar arddio cyfeillgar i fywyd gwyllt i'r cyhoedd yn gyffredinol, garddwyr, ysgolion a grwpiau cymunedol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	PGBGE, CCGC, CG, BTCV, YNGC
Arolygon, ymchwil a monitro		
6	Hyrwyddo, cofnodi a monitro bywyd gwyllt ar diroedd ysgol / gerddi gan blant ysgol trwy'r cynllun Ysgolion Gwyrdd / Eco Ysgolion TARGED/AMSERLEN: 15 ysgol, Erbyn 2008	CG
7	Annog garddwyr preifat i gofnodi / arsylwi ar fywyd gwyllt yn eu gerddi trwy baratoi ffurflen cofnodi a'u hannog i anfon y cofnodion at Gyngor Gwynedd TARGED/AMSERLEN: 50 cofnod bywyd gwyllt, Erbyn 2010	PGBGE, CG, CCGC, YNGC, CFGA
Cyfathrebu a rhoi cyhoeddusrwydd		
8	Hyrwyddo mabwysiadu'r cynllun Ysgolion Gwyrdd ymysg ysgolion Gwynedd a, lle mae wedi'i fabwysiadu'n barod, annog symud ymlaen o efydd i arian ac ymlaen tuag at y wobwr aur TARGED/AMSERLEN: 6 ysgol i ennill statws aur, 16 o ysgolion i gyrraedd arian a 24 ysgol i gyrraedd efydd, Erbyn 2008	CG
9	Hyrwyddo mabwysiadu'r cynllun Eco-ysgolion ac annog symud ymlaen o efydd i arian ac ymlaen at wobwr banner werdd TARGED / AMSERLEN: Cyfredol	CG
10	Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gerddi ar gyfer bioamrywiaeth wrth ddsbarthu taflenni, cynnal sgysgiau a threfnu dyddiau agored mewn gerddi bywyd gwyllt sy'n bodoli'n barod TARGED / AMSERLEN: 10 sgwrs Erbyn 2007	PGBGE, CG, CCGC, YNGC, CFGA
11	Hyrwyddo'r defnydd o ddewisiadau eraill heblaw mawn ac o gompost heb fawn drwy ddsbarthu taflenni a chyflwyno datganiadau i'r wasg i'r papurau lleol yn achlysurol TARGED / AMSERLEN: 2 ddatganiad i'r wasg, Erbyn 2008	CG, PGBGE, CCGC, YNGC
12	Parhau i hyrwyddo a chynnig biniau compost yn rhad ac am ddim i drigolion Gwynedd TARGED / AMSERLEN: 1000 o finiau compost i'w darparu fesul blwyddyn, Hyd at 2008	CG
13	Cynnal digwyddiadau i hyrwyddo a dangos garddio bywyd gwyllt, gan gynnwys mewn canolfannau garddio lleol ac mewn gerddi poblogaidd sydd ar agor i'r cyhoedd TARGED / AMSERLEN: 2 ddigwyddiad arddangos, Erbyn 2008	CG, PGBGE, BTCV
14	Hyrwyddo stocio planhigion brodorol mewn canolfannau garddio ac annog canolfannau i beidio â stocio planhigion anffrodorol sy'n gallu fod yn ymwithiol TARGED / AMSERLEN: 3 chanolfan garddio yn y cynllun, Erbyn 2008	CCGC, PGBGE, CG, AAC, YNGC

7. PARTNERIAID & CHYFLEOEDD

7.1 Prif bartner ar gyfer y CGC

Cyngor Gwynedd (CG)

Partneriaeth Garddio Bywyd Gwyllt Eryri (PGBGE)

7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Gwarchodwyr Cefn Gwlad (BTCV)

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (YNGC)

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru (CFGACymru)

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AAC)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

7.3 Cyfleoedd

Y cyhoedd, Ysgolion, Grwpiau cymunedol

8. DIOLCHIADAU

Prif awduron: Bryn Griffiths (CG)

Ymgynghorol: Emily Meilleur (CG), Becky Groves (CBSC), Anna Williams (PGBG), Kate Williamson (APCE), Pete Frost (CCGC), Chris Wynne (YNGC), Elfed Gruffydd (CYG), Eyllt Davies (Eco Sgolion)

Lluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CGBL: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, PGNG: Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd, GCC: Gorchymyn Cadw Coed, CYG: Cynllun Ysgolion Gwyrdd.

Fersiwn 1, 2006

¹ Williams, A, 2005. Prosiect Garddio Bywyd Gwyllt Eryri. Partneriaeth Garddio Bywyd Gwyllt Eryri.